# Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

**2019 dccc 4**

## RHAN 3

AMRYWIOL

### 40 Cyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yn y [[F1]Senedd]

(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud, neu'n bwriadu gwneud, offeryn statudol a fyddai fel arall yn ddarostyngedig i ddwy neu ragor o weithdrefnau gwahanol yn y [[F2]Senedd] o ganlyniad i'r is-ddeddfwriaeth y mae'n ei chynnwys, mae pa un bynnag o'r gweithdrefnau hynny yn y [[F2]Senedd] a grybwyllir gyntaf yn is-adran (2) yn gymwys i'r offeryn (ac nid yw'r un o'r gweithdrefnau eraill yn y [[F2]Senedd] yn gymwys).

(2) Yn yr adran hon, ystyr "gweithdrefn yn y [[F3]Senedd]" yw gweithdrefn sy'n cael yr effaith—

(a) na chaniateir gwneud offeryn statudol (neu'r is-ddeddfwriaeth y mae'n ei chynnwys) oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron [[F4]Senedd Cymru] a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad,

(b) bod rhaid gosod offeryn statudol gerbron [[F5]Senedd Cymru] ar ôl iddo gael ei wneud a rhaid iddo gael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan [[F5]Senedd Cymru] er mwyn i'r is-ddeddfwriaeth y mae'n ei chynnwys ddod i rym neu barhau mewn grym,

(c) bod offeryn statudol yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan [[F6]Senedd Cymru],

(d) bod rhaid gosod offeryn statudol gerbron [[F7]Senedd Cymru] ar ôl iddo gael ei wneud, neu

(e) nad yw'n ofynnol i offeryn statudol gael ei osod gerbron [[F8]Senedd Cymru] ar unrhyw adeg.

(3) Nid yw'r ffaith bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud is-ddeddfwriaeth mewn offeryn statudol y mae is-adran (1) yn gymwys iddo yn—

(a) eu hatal rhag gwneud is-ddeddfwriaeth bellach mewn offeryn statudol nad yw'r is-adran honno yn gymwys iddo, na

(b) effeithio ar y weithdrefn yn y [F9 Senedd] sy'n gymwys i offeryn o'r fath.

(4) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth—

(a) a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig neu ddeddfwriaeth uniongyrchol [F10 a gymathwyd], a

(b) sy'n gymwys ac eithrio o ran Cymru.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn a. 40 heading wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(5)(a)**

**F2** Gair yn a. 40(1) wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(5)(a)**

**F3** Gair yn a. 40(2) wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(5)(b)(i)**

**F4** Geiriau yn a. 40(2)(a) wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(5)(b)(ii)**

**F5** Geiriau yn a. 40(2)(b) wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(5)(b)(iii)**

**F6** Geiriau yn a. 40(2)(c) wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(5)(b)(iv)**

**F7** Geiriau yn a. 40(2)(d) wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(5)(b)(iv)**

**F8** Geiriau yn a. 40(2)(e) wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(5)(b)(iv)**

**F9** Gair yn a. 40(3)(b) wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(5)(c)**

**F10** Geiriau yn a. 40(4)(a) wedi eu hamnewid (1.1.2024) gan Retained EU Law (Revocation and Reform) Act 2023 (c. 28), a. 22(3), **Atod. 2 para. 9(5)(a)** (ynghyd ag a. 22(6)); O.S. 2023/1363, rhl. 3(e)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 40 mewn grym ar 11.9.2019, gweler **a. 44(1)(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, Adran 40.